

# Addysg / Education



Pennaeth Addysg /  
Head of Education – Garem Jackson

☎ (01286) 679089 Ein Cyf / Our Ref:  
📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:  
✉ GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru



6 Gorffennaf 2020

AT: RIENI/OFALWYR PLANT YSGOLION GWYNEDD SY'N WEITHWYR ALLWEDDOL

Annwyl Riant/Gofalwr

Mewn ymateb i'r cyfnod cynnar o gloi, darparodd awdurdod lleol Gwynedd gyfleusterau gofal plant mewn ysgolion ar gyfer gweithwyr allweddol. Roedd hwn yn ymateb uniongyrchol i anghenion gofal plant brys y rheiny sydd ar reng flaen yr achos cenedlaethol i leihau effaith y pandemig coronafirws. Cafodd ysgolion eu hail-bwrpasu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cyfleusterau hyn.

Yn dilyn ymgynghori ag asiantaethau eraill, gan gynnwys y GIG, ac wrth inni symud ymlaen â'n rhaglen adferiad cenedlaethol, nid yw'r un lefel o angen yn bodoli mwyach, ac mae codi'r cyfyngiadau yn caniatáu i ofal plant gael ei ddarparu trwy ddulliau mwy arferol. Mae ysgolion bellach wedi dychwelyd i'w pwrpas creiddiol, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu darpariaeth ofal i blant oedran ysgol gweithwyr allweddol dros yr haf. O ganlyniad, ni fydd yr awdurdod lleol yn darparu gofal dros wyliau'r haf i blant oedran ysgol gweithwyr allweddol. Mae hyn yn gyson â'r hyn sy'n digwydd mewn awdurdodau lleol eraill, ac yn fodd i ddarparwyr gofal plant yng Ngwynedd ailsefydlu eu busnesau fydd yn gyfrwng i ddiwallu'r angen hwn.

Mae croeso i deuluoedd sydd am gael mynediad at ofal plant gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol ([GGTGwyneddFIS@gwynedd.llyw.cymru](mailto:GGTGwyneddFIS@gwynedd.llyw.cymru) / 01248 352436 / 07976 623816) a fydd yn darparu rhestr o ddarparwyr cofrestredig a fyddai'n gallu diwallu eu hanghenion.


Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau Plant ac Adran Addysg yr awdurdod lleol yn llunio rhaglen gymorth haf ar gyfer ein dysgwyr mwyaf bregus, y mae llawer ohonynt wedi canfod amodau cloi yn arbennig o heriol a niweidiol. Bydd y rhaglen hon yn ceisio darparu cefnogaeth bwrpasol i'r rhai yr aseswyd eu bod yn blant a phobl ifanc mwyaf ynysig sy'n dioddef o bwysau cynyddol ac anghydraddoldeb seicolegol sylweddol. Bydd y rhaglen wedi'i seilio o amgylch adnoddau cyfredol, gan ganiatáu i wasanaethau ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a gwell ymyriadau lles ac iechyd meddwl.

Unwaith eto, hoffem achub ar y cyfle hwn i fynegi ein diolch i rieni a gofalwyr am eu dealltwriaeth a'u cydweithrediad yn ystod yr amseroedd heriol hyn.

Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1SH  
01766 771000  
[www.gwynedd.llyw.uk](http://www.gwynedd.llyw.uk)

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian  
*Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money*

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'G. P. Jackson', written in a cursive style.

**Garem Jackson**  
**Pennaeth Addysg**